

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybie a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybie, ac ar Zoom ar ddydd Mercher, Mehefin 29^{ain}, 2022 am 6.30 yh

Presennol

Cynghorwyr	P. H. Roberts	Mrs A. J. Evans	Mrs K. D. L. Davies
	Mrs S. E Thomas	Mrs C. Thomas	G J. Davies
	S. Roberts	A. W. Jones	R. W. Barnes
	D. Nicholas	Mrs H. S. Bjork	D. Thomas
	J. W. Tandy		

Ymddiheuriadau

Cynghorwyr	R. A. Davies	I. Rh. Llewelyn	D. Hopkins
	D. Jones		

27.

Datganiadau o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd J. W Tandy wedi datgan buddiant yn y broses o gyfethol Aelod yn Saron, gan taw fe yw gŵr yr ymgeisydd.

28.

COFNODION

Rhodddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion Cyfarfod Statudol y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 18^{ed}, 2021.
- Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Fai 18^{ed}, 2021.
- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Fai 18^{ed}, 2021.
- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi a gynhaliwyd ar Fehefin 6^{ed}, 2021.

Penderfynwyd cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir.
Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y Pwyllgorau.

29.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

i) Materion yn codi o'r cyfarfod Statudol, a gynhaliwyd ar Fai 18^{fed}, 2022

a) Cofnod rhif 5) – Penodi pwyllgorau

Gan fod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn Aelodau o'r holl bwyllgorau, **pendefynwyd** ychwanegu'r Cynghorwyr isod at y pwyllgorau canlynol:-

- Cyllid: Y Cynghorydd D. Jones – ward Saron
- Cynllunio: Y Cynghorydd D. Thomas – ward Penygroes
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus: Y Cynghorydd D. Thomas – ward Penygroes
- Polisi: Y Cynghorydd Mrs S. E. Thomas – ward Penygroes

Hefyd, **penderfynwyd** gadael gadael yn wag y lle Datblygu Cymunedol, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a chodi proffil aelod pwyllgor y Cyngor ar gyfer Saron tan y cyfarfod nesaf, fel bod modd ystyried yr aelod a gyfetholwyd yn ddiweddar.

ii) Materion yn codi o'r Cyfarfod Cyffredin a gynhaliwyd ar Fehefin 18^{fed}, 2022

a) Cofnod rhif 1089 a 12(a) – Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021/2022 – Chwynladdwyr – Roedd y Clerc wedi ceisio cysylltu ag Ainsley Williams, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerfyrddin, er mwyn derbyn ymateb ond heb glywed dim hyd yn hyn.

b) Cofnod rhif 14(6) – Cyfleusterau cyfieithu – Roedd y Clerc wedi bwrw ati i ddewis Zoom fel yr opsiwn dewisol i helpu gyda'r gwaith o gyfieithu cyfarfodydd y cyngor. O hyn ymlaen bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael i bawb sy'n mynychu'r cyfarfodydd, naill a'i fyw yn y siambr neu'n rithiol.

30.

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Nid oedd unrhyw gyfranogiad.

GOHEBIAETH

31.

Adroddiadau Trosedd yr Heddlu

Cofnodwyd y troseddau canlynol yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2022:-

Llandybie

	MAI	MEHEFIN
Bwrgleriaeth	1	1
Difrod Troseddol	1	4
Ymosod	2	3
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau		1
Stelcio	1	
Aflonyddu	3	3
Cyfathrebu maleisus	1	
Lladrad	1	
Dwyn o siop	1	

Saron gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc

	MAI	MEHEFIN
Bwrgleriaeth		2
Lladrad	1	1
Difrod Troseddol	1	1
Ymosod	6	4
Ymosod ar yr Heddlu	1	
Cyfathrebu maleisus		1
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau		1

Cadeirydd

Aflonyddu	3	3
Mynd â cherbyd heb ganiatâd	1	
Digwyddiadau domestig	2	1
Affraé	1	
Arall	1	1

Penygroes

	Mai	JUNE
Bygythiadau i Ladd		1
Difrod Troseddol	1	
Ymosod	3	1
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau	2	
Aflonyddu	1	
Blacmél	1	

32.

Parc Llandybïe

Roedd y Cynghorydd Sir D. Nicholas wedi derbyn llythyr cwyn oddiwrth breswylwr lleol, ac wedi anfon y llythyr ymlaen at y Clerc. Roedd y preswylwr yn poeni bod yr ardal chwarae plant yn rhy fach ar gyfer yr ystod oedran a oedd yn defnyddio'r offer chwarae. Yn ychwanegol, dywedwyd bod y diffyg cyfleusterau yn yr Ardal Gemau Aml-Ddefnydd (MUGA) yn destun pryder. Bu trafodaeth ynghylch y math o gyfleusterau sydd ar gael ar draws yr ardal, gan gynnwys yr angen i ymgysylltu â'r cyhoedd o ran deall yr hyn sydd ei angen er mwyn diwallu anghenion plant yr ardal. **Penderfynwyd** gofyn i'r pwyllgor Parciau ac Ardal Chwarae adrodd yn ôl gyda'i syniadau mewn cyfraod yn y dyfodol.

33.

Canllaw y Cynghorydd Da

Mae'r ddogfen gynhwysfawr iawn hon wedi'i diweddarau ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref.

Penderfynwyd nodi cynnwys y ddogfan a'i gweld fel adnodd cyfeirio da i gynghorwyr.

34.

Pwyllgor Digwyddiadau Cymunedol Penygroes

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Ewan Chappell yn gofyn os gallai'r grŵp digwyddiadau cymunedol newydd hwn, a ffurfiwyd yn ddiweddar, ddefnyddio'r cae rygbi yn y parc ar Awst 27^{ain}, 2022 i gynnal digwyddiad haf. Fe allai'r digwyddiad gynnwys cerddoriaeth fyw, stondinau bychain, dyfeisiadau diddanu chwythadwy ac ambell i reid ffair, ond nid oedd y trefniadau wedi eu cadarnhau eto.

Penderfynwyd caniatáu defnydd o'r parc, ar yn amod bod meini prawf penodol yn cael eu diwallu, a bydd y clerch yn rhoi manylion rhain i'r pwyllgor.

35.

ADRODDIAD Y CLERC

1) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

i) Ar gais Cyngor Sir Caerfyrddin, mae Llwybr troed rhif 51/22 yn Saron wedi'i ail-agor gan Dynevor Tree Services. Derbyniwyd anfoneb am £600 am glirio gordyfiant trwchus a choed a oedd wedi cwmpo a, gyda chydysniad y Cadeirydd, ei thalu.

ii). Rhoddwyd mapiau newydd yn dangos y rhwydwaith llwybrau troed i'r cynghorwyr newydd; prynwyd y mapiau oddiwrth Harcourt Print, Abertawe, am bris o £275 a TAW.

iii). Roedd y Cynghorydd Sir P. Cooper o Saron wedi hysbysu'r Clerc bod menyw wedi cwmpo ar Llwybr troed rhif 51/23 oherwydd bod wyneb y llwybr yn anwastad. Roedd wedi cyfeirio'r mater at sylw Tîm Mynediad at Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin, a oedd wedi cytuno archwilio'r ardal dan sylw.

iv). Dywedwyd bod ffens bren wedi cwmpo ar Llwybr troed rhif 51/123, sydd hefyd yn gweithredu fel Llwybr Ceffylau. Roedd wedi cyfeirio'r mater at sylw Tîm Mynediad at Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin, a oedd wedi cytuno clirio'r rhwystr.

2) Parciau

1) Arolygu'r Coed

Derbyniwyd tri dyfynbris am y gwaith sydd yn weddill o glirio coed ym mharciau Derwydd a Chwmgwili. Cafodd y contract ei ddyrannu i gwmni Carmarthenshire Tree Surgery, Llandybie, a oedd wedi cyflwyno dyfynbris o £800 am wneud y gwaith clirio. Roedd y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol, ac anfoneb wedi'i derbyn i'w thalu.

Penderfynwyd talu'r anfoneb.

ii) Llwybr ym mharc Llandybie

Roedd y llwybr o gwmpas y grîn bowllo, a sy'n arwain at y cyrtiau tenis, wedi cael ei lanhau gan COE Jet Wash Services, Llandybie, er mwyn clirio mwsogl a oedd wedi dod yn fwy-fwy peryglus i gerdded arno yn ystod cyfnodau o dywydd gwlyb. Roedd y gwaith wedi'i gwblhau'n foddhaol a, gyda chydysniad y Cadeirydd, cafodd yr anfoneb am £400 ei thalu.

iii) Blodau gwyllt ym mharc Penygroes

Derbyniwyd anfoneb am £240 a TAW oddiwrth Wrenvale Nurseries and Landscapes am y gwaith o hau hadau blodau gwyllt, yn flynyddol, yn y parc. Gyda chydysniad y Cadeirydd, talwyd yr anfoneb.

iv) Difrod i'r wyneb ym mharc Llandybïe

Roedd darn o'r wyneb tomwellt 30 cm sgwâr wedi cael ei dorri i ffwrdd, gan ddatgelu ymyl miniog iawn eitem o offer blaenorol. Roedd yr wyneb difrodedig, ac yn enwedig yr ymylon miniog, yn golygu risg difrifol o ran Iechyd a Diogelwch ac roedd y Clerc wedi trefnu bod contractwr lleol yn clirio i ffwrdd y polyn ymyl miniog a phrynu cit i atgyweirio'r tomwellt ac adfer y difrod. Roedd y cit atgyweirio wedi'i brynu oddiwrth Online Playgrounds Ltd am bris o £72 a TAW.

Roedd Heddlu Dyfed Powys wedi cael gwybod am y digwyddiad.

v) Glanhau offer parc a chlirio mwsogl

Roedd arolygon parc diweddar wedi dod ar draws offer parc brwnt, a mwsogl ar yr wynebau gronynnau rwber, ac roedd angen glanhau'r rhain. Roedd yr wynebau mwsoglyd yn peri risg i ddefnyddwyr y parc pan fod yr wynebau yn wlyb. O ganlyniad i'r nosweithiau mwy golau a'r tywydd gwell, mae'r parciau yn brysurach ar hyn o bryd a, gyda chydysniad y Cadeirydd, cytunwyd bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn ddi-oed er mwyn diddymu unrhyw bryderon Iechyd a Diogelwch. Roedd rhestr o'r holl waith wedi'i gyflwyno i'r cynghorwyr.

Derbyniwyd tri dyfynbris oddiwrth gontractwyr lleol, a dyrannwyd y contract i COE Jet Wash Services, Llandybïe, am bris o £1395.50. Roedd yr anfoneb wedi'i derbyn a, gyda chydysniad y Cadeirydd, ei thalu.

3) Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Calon Cymru

Derbyniwyd cais am adnewyddu'n haelodaeth o'r mudiad hwn, am pris o £18. It was **resolved** to renew the annual membership.

4) Rhwymo Cofnodion y Cyngor, 2021/2022

Gofynnwyd i gwmini F C Bookbinder rhwymo'r Cofnodion blynyddol am bris o £145.

5) Bwrdd y Cadeiryddion yn y Siambr

Roedd Paul Coates wedi mynychu'r Siambr i ddiweddarau Bwrdd y Cadeiryddion am bris o £30.

6) Mainc yn Heol Ddu

Roedd y fainc newydd wedi cael ei gosod yn ei lle gan R Gleaves, Bonllwyn, am bris o £40.

7) Gwasanaethu'r Diffoddwyr Tân yn flynyddol

Roedd y ddiffodwyr tân yn y ddau bafiliwn ac yn swyddfeydd y cyngor wedi'u cynnal gan Uniserve Wales Fire Protection Ltd., Llandybïe, am bris o £127.50 a TAW

36.

GILFACH IAGO

Roedd llythyr wedi'i dderbyn oddiwrth Stephen Murphy, cyfreithiwr hŷn Cyngor Sir Caerfyrddin, i hysbysu'r Aelodau bod y trafodaethau gyda chyfreithwyr Celtic Energy yn dal yn mynd ymlaen, a'i fod yn obeithiol y byddai'n gallu cadarnhau bod y mater wedi dod i'w derfyn cyn bo hir.

37.

CYNLLUN HYFFORDDIANT Y CYNGOR

Gofynnwyd bod yr Aelodau yn ystyried cynllun hyfforddiant newydd ar gyfer y Cyngor.

Yn unol ag adran 67 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae ar y cyngor ddyletswydd statudol i lunio cynllun sy'n amlinellu'r hyn y mae'n bwriadu gwneud i ddiwallu anghenion hyfforddiant ei gynghorwyr a'i staff.

Mae'r cynllun hyfforddi wedi'i ddylunio i sicrhau bod y cynghorwyr a'r staff, gyda'i gilydd, yn meddu ar yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen ar y cyngor er mwyn iddo allu weithredu mewn ffordd effeithlon. Nid oes angen bod pob cynghorydd a phob aelod o staff yn derbyn yr un hyfforddiant neu chwaith yn datblygu yr un arbenigedd.

Rhaid gosod cynllun hyfforddiant newydd yn ei le ar gyfer cynghorwyr cymuned ar ôl pob etholiad cyffredin, er mwyn adlewyrchu anghenion hyfforddiant sy'n deillio o newidiadau yn aelodaeth y cyngor ac anghenion cynghorwyr newydd. Dyma fydd cynllun hyfforddi cyntaf y cyngor ond, o hyn ymlaen, bydd y cyngor yn adolygu'r cyngor o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn berthnasol.

O ran staff y cyngor, mae gwerthusiadau perfformiad blynyddol yn adnabod cyfleoedd am hyfforddiant unigol ar sail barhaus, ond, wrth benderfynu ar flaenoriaethau hyfforddiant i gynghorwyr mae angen cynnal asesiad hyfforddi cychwynnol o'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen, a p'un ai bod y cyngor o'r farn bod ei gwmpas a'i ddyfnder yn ddigonol i'w alluogi i weithredu'n effeithlon wrth iddo symud ymlaen o fis Mai 2022. Mae gan y cyngor dîm ymroddgar o staff profiadol, cymwysedig. O ganlyniad, mae'r cyngor yn hyderus y bydd gwybodaeth ac arbenigedd y staff yn helpu llywio a chefnogi aelodau newydd yn ystod eu 6 neu 12 mis cyntaf fel cynghorwyr etholedig.

Serch hynny, mae angen mynd i'r afael â meysydd craidd i sicrhau bod sgiliau a dealltwriaeth y cyngor yn ddigonol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Sefydlu sylfaenol ar gyfer cynghorwyr;
Y Côt Ymddygiad ar gyfer aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru;
Rheoli Ariannol a Llywodraethu

Ar ôl adnabod yr anghenion cychwynnol sydd eu hangen i symud y cyngor yn ei flaen yn dilyn yr etholiadau cyffredin a gynhaliwyd ar Fai 5^{ed} 2022, **penderfynwyd** cymeradwyo cyhoeddi'r cynllun hyfforddi. Mae'r cynllun yn giplun o'r anghenion hyfforddi sy'n bodoli ar hyn o bryd, a byddwn yn ei ail-ymweld â'r cynllun, a'i

ddiweddaru yn achlysurol yn ystod y bum mlynedd nesaf ac yn y cyfnod a fydd yn arwain at yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf sydd i'w cynnal ym Mai 2027. Bydd y Cyngor yn talu holl gostau'r hyfforddiant.

Mae cynllun hyfforddiant 2022/2023 ar gael ar wefan y Cyngor.

38.

CYFETHOL AELOD NEWYDD – WARD SARON

Roedd y Cynghorydd J.W Tandy wedi gadael yr ystafell gan ei fod wedi datgan buddiant personol a rhagfarnus yn y mater gan taw fe yw gŵr un o'r ymgeiswyr.

Roedd y Clerc wedi derbyn dau gais i'w hystyried. Cafodd y ddau gais eu trafod, a chynhaliwyd pleidlais.

Mrs Carol Tandy – 1 bleidlais

Miss Gwenllian Harries – 9 pleidlais

Roedd un cynghorydd wedi ymatal pleidlais

Penderfynwyd penodi Miss Gwenllian Harries yn aelod cyfetholedig ar gyfer ward Saron, a bod y Clerc yn ysgrifennu ati yn ffurfiol i'w gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn, ac iddi Ddatgan ei bod yn Derbyn y Swydd.

39.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r cyfrifon

Dywedodd y Clerc bod y cyfrifon canlynol, gyda chydysyniad y Cadeirydd, wedi'u talu ers y cyfarfod diwethaf:

5858	Neuadd Eglwys Llandybïe	Rhent y Swyddfa a'r Siambr 1/6/22 – 30/11/22	£650.00
5859	J T Services	Cytundeb y cyfleusterau cyhoeddus ar gyfer Mai 2022 a thorri'r glaswellt ddwywaith yng Ngorsddu	£1010.00
5860	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£166.30
5861	COE Jet Wash Services	Clirio mwsogl oddiar y llwybr o gwmpas y grŵn bowlio	£400.00
5862	Dynevor Trees Services	Clirio gordyfiant trwchus ar Lwybr troed rhif 51/22 yn Saron	£600.00
5863	SSE Swalec	Trydan yng nghyfleusterau cyhoeddus Llandybïe 11/1/22- 25/5/22	£82.03
5864	D J Electrical Ltd	Amnewid siec rhif 005778 a gollwyd yn y post	£288.00
5865	EDF	Parc Penygroes – Mai 2022	£13.59
5866	EDF	MUGA Llandybïe – Mai 2022	£11.13

Cadeirydd

Mehefin 29^{ain}, 2022

5867	EDF	Pafiliwn Saron – Mai 2022	£17.85
5868	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Mai 2022	£50.21
5869	EDF	Sied Fowlio Llandybïe – Mai 2022	£19.38
5870	EDF	Parc Capel Hendre – Mai 2022	£11.13
5871	Dŵr Cymru	Pafiliwn Saron 2/12/21- 26/5/22	179.13
5872	Harcourt colour print	Mapiau o'r llwybrau troed a'r hawliau tramwy cyhoeddus yn ardal y Cyngor	£330.00
5873	SSE Swalec	Trydan i'r Swyddfa a'r Siambr – 14/1/22 – 30/5/22	£75.50
5874	Wrenvale Nurseries and Landscapes	Blodau gwyllt ym mharc Penygroes	£288.00
5875	S Griffith	Cyflog Mehefin 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£2366.37
5876	R Thomas	Cyflog Mehefin 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tŷ fel swyddfa	£676.31
5877	Cyllid y Wlad	Mehefin 2022	£1051.00
5878	Martin Davies	Diffyg yn siec rhif 00005845	£1.00
5879	Martin Davies	Cyfieithu Cofnodion y cyfarfod Polisi	£19.40
5880	Online Playgrounds	Cit atgyweirio tomwellt a resin	£100.40
5882	P Bishop	Cynnal a chadw'r parciau	£350.00
5883	F C Bookbinder	Rhwymo Cofnodion 2021/2022	£145.00
5884	Dŵr CYmru	Cyfleusterau cyhoeddus Penygroes 3/12/21- 14/6/22	£146.64
5885	COE Jet Wash Services	Glanhau offer parc ac wynebaw mwsoglyd yr wynebaw rwber	£1395.50
5889	SSE Swalec	Trydan yng nghyfleusterau cyhoeddus Penygroes, 17/3/22- 15/6	£38.90
5892	R Gleaves	Gosod mainc yn Heol Ddu	£40.00

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau a'r ceisiadau am dâl canlynol:

5881	HOWLTA	Adnewyddu aelodaeth blynnyddol	£18.00
5886	J T Services	Cytundeb y cyfleusterau cyhoeddus ar gyfer Mehefin 2022 a thorri'r glaswellt ddwywaith yng Ngorsddu	£980.00
5887	Streetmaster (South Wales) Ltd	Mainc yn Heol Ddu / Cyffordd Heol y Mynydd	£454.01
5888	Carmarthenshire Tree Surgery	Y gwaith sy'n weddill o Arolygu'r Coed	£800.00
5890	Paul Coates	Diweddarau bwrdd y Cadeiryddion	£30.00
5891	Uniserve Wales Fire Protection Ltd	Gwasanaethu'r diffoddwyr tân yn flynyddol	£153.00

Cadeirydd

Penderfynodd yr Aelodau y dylid talu'r cyfrifon.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol – Cyngor Cymuned Llandybïe 2022/2023

	Cyllideb 2022-23	Incwm a Gwariant 01.04.22- 31.05.22
	£	£
Praesept	180,000	60,000
Llog: Lloyds	25	3
Llog: cyfrifon cadw	250	
Hawliau Trawmy Cyhoeddus	3,000	
Cytundebau Llogi	4,700	4700
	187,975	64,703
Staffio	48,858	8,187
Adeiladau	16,950	4,766
Gwasanaethau Swyddfa	4,800	2,189
Costau'r Aelodau	3,300	650
Gwasanaethau a Thanysgrifiadau	7,350	530
AIran 137		0
Tylliadau yn unol â phwerau e}uill		0
Mannau Agored Cyhoeddus		0
Neuaddau pentref		0
Claddfeydd	18,000	0
Hawliau Tramwy Cyhoeddus – cynnal a chadw	}	1,075
Hawliau Tramwy Cyhoeddus - gwelliannau	10,000	0
Torri'r glaswellt/ sbwriel/ cyfleusterau	28,000	160
Atgyweirio ac amnewid offer yn y parciau	30,000	1,600
Goleuo cyhoeddus - ynni Goleuo cyhoeddus - gwelliannau	}	0
Datblygu Cymunedol	63,000	3,880
Cyfleusterau cyhoeddus	12,000	1,830
	248,258	24,867
Balans am y flwyddyn (cyfnod)		39,836
d/y		309,286
c/y	0	349,122

Mehfin 29^{ain}, 2022

Arian parod a buddsoddiadau	347,501
Dyledwyr	1,621
Credydwyr	0
	<hr/>
	349,122
	<hr/>

Roedd y Cynghorydd Mrs A. J Evans wedi argymhell bod y Cyngor yn ystyried rhoi arian i Fanc Bwyd Rhydaman er mwyn helpu gyda'r argyfwng cost byw cyfredol. **Penderfynwyd** y dylid cynnig y swm o £1000.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

(iii) Adolygiad blynyddol o ddogfen Rheoli Mewnol y Cyngor

Aeth y Clerc drwy gynnwys y ddogfen, a oedd wedi aros yn ddigyfnawid ers 2021. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r ddogfen.

40.

Cais am wybodaeth oddiwrth Cynghorwyr Sir ynghylch cytundebau Adran 106

Ni dderbyniwyd unrhyw gais.

41.

Adroddiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Roedd rhai o'r Cynghorwyr wedi mynychu'r cyrsiau hyfforddi ynghylch y Côt Ymddygiad a Sefydlu Cynghorydd Newydd.

42.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar **Orffennaf 27^{ain}, 2022.**

43.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7.45 yh.

Cadeirydd